Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

## Cyfarfod Rhif 3: Cofnodion

**Ystafell Gyfarfod Bloc 5, Cyngor Sir Gaerfyrddin,**

**30 Ionawr 2020**

**YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Martin Buckle (Cadeirydd) | Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol |
| James Morris (JM) | Llywodraeth Cymru |
| Andy Fraser (AF) | Llywodraeth Cymru |
| Chris Curry (Ysgrifenyddiaeth) | Llywodraeth Cymru |
| Jonni Tomos (JT) | Llywodraeth Cymru |
| Jenny Dickinson (JD) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ben Kathrens (BK) | Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| Elizabeth Haywood (EH) | Cyfoeth Naturiol Cymru |

**Aelodau'r Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| Adrian Philpott (AP) | Dŵr Cymru – Welsh Water |
| Darren Thomas (DT) | Cyngor Sir Penfro |
| Geraint Edwards (GE) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Andrew Stone (AS) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Jean-Francois Dulong (JFD) | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Lorna Davis (LD) | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru |
| Karen Potter (KP) | Y Brifysgol Agored |
| Paul Blackman (PB) | Wallingford Hydro Solutions |
| David Harris (DH) | Ymgynghorydd Annibynnol |
| Anne-Marie Moon (AM) | JBA Consulting |
| Catherine Wilson (CW) | Prifysgol Caerdydd |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Jeremy Parr (JP) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Mike Wellington (MW) | WSP Consultation |
| Natalie Haines (NH) | Mott MacDonald |

### 1 – 2. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Cyflwynodd y Cadeirydd yr ymddiheuriadau a gwnaed cyflwyniadau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## 3. Datgan buddiannau

Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r pwyllgor ystyried y papurau a datgan a oedd ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau. Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau.

## 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2019, a materion sy'n codi

Roedd cofnodion drafft wedi cael eu dosbarth er mwyn gwneud sylwadau cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y cofnodion yn derfynol nac wedi eu cymeradwyo, gan nad oeddent yn cynnwys nifer o ddiwygiadau gan aelodau.

**CAM GWEITHREDU 1 – Yr Ysgrifenyddiaeth i gyhoeddi cofnodion y cyfarfod wedi eu cymeradwyo, a'u lanlwytho ar Objective Connect.**

## 5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar ei weithgareddau ers ail gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2019.

Yn fuan ar ôl yr ail gyfarfod cyfarfu â chydweithwyr o Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru i drafod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), cyn cyflwyno ymateb y Pwyllgor i'r ymgynghoriad ar yr FfDC drafft.

Mae wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen waith y Pwyllgor ymhellach. Yn ystod y broses hon mae hefyd wedi bod yn trafod â chydweithwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae hefyd wedi cwrdd â Phennaeth Polisi Cyhoeddus Cymru Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI). Nododd y Pennaeth Polisi Cyhoeddus â diddordeb y sylw a roddir i nodi arferion da o fewn rhaglen waith y Pwyllgor, a chynigiodd ddod i siarad â'r Pwyllgor am wrthsefyll llifogydd ar lefel eiddo ac yswiriant.

Yn ddiweddar aeth y Cadeirydd i gyfarfod cangen Cymru o Gymdeithas yr Awdurdodau Draenio, lle y dysgodd â diddordeb am amrywiaeth ein Hardaloedd Draenio Mewnol a'r heriau maent yn eu hwynebu.

Cyfarfu â Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ym mis Ionawr. Arweiniodd hyn at y cyfle i'r Cadeirydd roi diweddariad iddi am waith y Pwyllgor, i sicrhau ei chymeradwyaeth ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor ac i gynnig cyngor y Pwyllgor ar yr Adroddiad Adran 18 sy'n cael ei baratoi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Fel y dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Medi, roedd wedi cymryd rhan mewn rhaglen ymchwil a oedd yn cynnwys Sefydliad Ymchwil Dŵr Prifysgol Caerdydd, ar 'Integreiddio FCERM a Llesiant yng Nghymru'. Cadarnhaodd fod yr adroddiad terfynol ar yr ymchwil hon wedi cael ei gyhoeddi a'i rannu â'r Pwyllgor. Eglurodd fod yr adroddiad yn berthnasol iawn i lawer o'r rhaglen waith, ac

yn cynnwys argymhelliad penodol ynghylch rôl y Pwyllgor hwn. Yn hyn o beth cynigiodd ei gynnwys fel eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Roedd e wedi cael cyfweliad â BBC Radio Wales yn ddiweddar, sy'n paratoi cyfres o dair rhaglen o dan y teitl 'What If'. Mae'r rhaglenni hyn yn edrych ymlaen at y newidiadau sy'n bosibl yng Nghymru dros y 50 mlynedd nesaf neu fwy, a byddant yn cael eu darlledu ym mis Mawrth.

Gan edrych tua'r dyfodol, bydd yn mynd i gyfarfod Cadeiryddion y Pwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir yn Lloegr.

Mae wedi cael ei wahodd i gadeirio Cynhadledd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru yn y gwanwyn, a fydd yn canolbwyntio eleni ar gynllunio arfordirol a morol. Cynhelir y gynhadledd yn Neganwy ar 18 Mawrth.

**6. Rheoli Perygl Llifogydd yn Sir Gaerfyrddin a'r ymateb i Storm Callum, Hydref 2018 – Ben Kathrens, Cyngor Sir Gaerfyrddin**

Rhoddodd BK gyflwyniad i'r Pwyllgor ar Reoli Perygl Llifogydd yn Sir Gaerfyrddin a'u hymateb i Storm Callum.

Bydd y sleidiau'n cael eu rhannu â'r Pwyllgor.

**CAM GWEITHREDU 2 – Yr Ysgrifenyddiaeth i rannu'r cyflwyniad â'r Pwyllgor**

Roedd y cyflwyniad yn ymdrin â thair prif thema:

- Cyflwyniad – cefndir proffesiynol BK a strwythur ei dîm.
- Rheoli Perygl Llifogydd yn Sir Gaerfyrddin – gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Llifogydd Lleol wrth amddiffyn rhag llifogydd a diogelu'r arfordir, a gwaith y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy.
- Storm Callum – Roedd y manylion yn cynnwys eiddo a oedd wedi dioddef llifogydd, rheoli'r storm a phroses Adran 19 ar gyfer adrodd am lifogydd.

Trafododd y pwyllgor oblygiadau gofynion Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ar gyfer datblygiadau amaethyddol newydd. Gwnaethant drafod hefyd y dyletswyddau a roddir ar Awdurdodau Rheoli Risg yn y Strategaeth Genedlaethol ddrafft newydd, gan awgrymu nad oedd yn realistig hysbysu am lifogydd o fewn 24 awr.

Eglurodd JM nad oedd Gweinidogion ond yn disgwyl ffigurau dangosol a chael gwybod a oes angen cyllid gan Lywodraeth Cymru o fewn y 24 awr gyntaf.

Lleisiodd y Pwyllgor bryderon nad oedd aelwydydd yn ymwybodol o'u perygl o lifogydd, ac o ganlyniad nid oeddent yn sicrhau'r yswiriant llifogydd sydd ei angen.

Awgrymodd JM fod y ffaith nad oedd aelwydydd yn gwybod am y cynllun Flood Re yn destun pryder, a bod rhaid i Gymdeithas Yswirwyr Prydain fod yn fwy rhagweithiol wrth godi ymwybyddiaeth o'r cynllun.

Dywedodd BK fod gan ran busnesau fesurau amddiffyn rhag llifogydd ar lefel eiddo, ond nad ydynt yn eu defnyddio bob amser.

Trafododd BK broses Adran 19 ar gyfer adrodd ar ôl llifogydd, gan gadarnhau bod canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn dweud mai'r trothwy ar gyfer y gofyniad hwn yw 20 eiddo neu fwy yn dioddef llifogydd. Dywedodd hefyd fod 55 argymhelliad ar gyfer Awdurdodau Rheoli Risg a grwpiau amlasiantaethol eraill yn dilyn Storm Callum, gyda bron 50% o'r camau gweithredu bellach wedi eu cwblhau.

Trafododd y Pwyllgor adroddiadau Adran 19, a gofynnodd y Cadeirydd a oedd y wybodaeth yn yr adroddiad Adran 19 yn bwydo'n ddi-dor i ddatganiad Sir Gaerfyrddin ar gyfer adroddiad Adran 18 Cyfoeth Naturiol Cymru. Awgrymodd BK nad oedd, a bod rhaid iddynt gasglu gwybodaeth mewn modd mwy cadarn.

Dywedodd JFD wrth y Pwyllgor y byddai'n edrych ar fwrw ymlaen â Thema 9 o raglen waith y Pwyllgor, i ddylanwadu ar ymchwil drwy astudiaeth achos.

**CAM GWEITHREDU 3 – JFD i ddatblygu syniadau ar Thema 9 o raglen waith y Pwyllgor, i ddylanwadu ar ymchwil drwy astudiaeth achos, ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.**

## 7. Adroddiadau

### 7.1 Ffermio Cynaliadwy a'n Tir

Nodi'r adroddiad ar ymateb y Pwyllgor i'r ymgynghoriad.

Gofynnodd AP a oedd y Cadeirydd wedi derbyn ymateb ynghylch cynnig y Pwyllgor i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith polisi ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd wedi cael ymateb.

**CAM GWEITHREDU 4 – Llywodraeth Cymru i gymryd camau dilynol a sicrhau'r ymateb ynghylch cynnig y Pwyllgor.**

### 7.2 Nodiadau Cyngor Technegol Cynllunio (TAN) 14 a 15

Diolchodd JT i'r Pwyllgor am eu hymateb i'r ymgynghoriad ar Nodyn Cyngor Technegol Cynllunio (TAN) 15, gan roi diweddariad. Hyd yn hyn derbyniwyd 75 ymateb, yn ogystal â rhai atebion dros dro, a nifer o Awdurdodau Lleol wedi gofyn am ragor o amser.

Eglurodd eu bod yn gobeithio ei gyhoeddi ym mis Medi ochr yn ochr â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Dywedodd y Cadeirydd fod ymateb dros dro'r Pwyllgor wedi cael ei gyflwyno mewn pryd, ond bod rhagor o amser wedi cael ei gymeradwyo i gyflwyno'r ymateb terfynol yn dilyn y trafodaethau yn y cyfarfod heddiw.

*Cwestiwn 2 – Eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau:*

Tynnodd JFD sylw at anghysondebau ledled Cymru mewn perthynas ag Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol.

**CAM GWEITHREDU 5 – JFD i ddarparu llinellau ychwanegol ar gyfer ymateb y Pwyllgor i'r ymgynghoriad.**

Lleisiodd LD bryderon ychwanegol ynghylch ymateb 2.7 – SuDS.
Eglurodd fod y sector amaethyddiaeth yn pryderu am effaith gofynion SuDS ar eu cymuned, gan ddweud bod yr adborth a dderbyniwyd yn nodi bod y gwaith o weithredu gofynion SuDS yn rhy gostus, a chan fod maint y risg mewn adeiladau amaethyddiaeth yn is, ei bod yn bosibl nad oedd angen gweithredu'r gofynion.

**CAM GWEITHREDU 6 – LD i ddarparu llinellau ychwanegol ar gyfer ymateb y Pwyllgor i'r ymgynghoriad.**

*Cwestiwn 6 – Llifogydd dŵr wyneb:*

Gofynnodd JM am farn y Pwyllgor ynghylch dŵr wyneb. Cadarnhaodd y bydd dŵr wyneb yn cael ei ystyried yn ystod y mapio, ac y byddai'n gwerthfawrogi barn y Pwyllgor mewn perthynas â phwysoli risg.

Roedd AS yn pryderu, er bod y mapiau'n dangos risg uwch ar gyfer dŵr wyneb, ei bod yn bosibl na fyddai cynllunwyr yn ystyried hyn.

Awgrymodd PB fod dŵr afonol a dŵr llanwol yn peri risg uwch ac, felly, ar gyfer parthau llifogydd 2 a 3 ni ddylid ystyried dŵr glaw (dŵr wyneb).

*Cwestion 7 – Integreiddio materion erydu arfordirol i TAN 15*

Gofynnodd y JM a oedd y Pwyllgor yn credu y dylid dangos y perygl o erydu arfordirol ar y map llifogydd.

Consensws y Pwyllgor oedd y dylid cynnwys y perygl o erydu arfordirol, gan mai dyma'r dystiolaeth orau sydd ar gael.

**CAM GWEITHREDU 7 – Aelodau'r Pwyllgor i roi unrhyw sylwadau eraill ar gyfer yr ymateb i'r Cadeirydd o fewn deg diwrnod**

**CAM GWEITHREDU 8 – Y Cadeirydd i gyflwyno ymateb terfynol, swyddogol y Pwyllgor o fewn pythefnos**

**7.3 Rhaglen Waith y Pwyllgor**

Derbyn adroddiad y Cadeirydd ac ystyried yr argymhelliad y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Waith ddiwygiedig.

Cyflwynodd y Cadeirydd y papur, gan dynnu sylw at y newidiadau allweddol, a dweud bod fersiwn gynharach wedi cael ei chymeradwyo yn y cyfarfod diwethaf.

Gwnaeth AF sylw ar Thema 1, gan awgrymu y gallai'r Pwyllgor fewnosod elfen o graffu gan Lywodraeth Cymru yn y naratif.

Trafododd y Cadeirydd Thema 4 – archwilio'r cyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau ar gyfer FCERM yng Nghymru, gan gynnwys cyfraniadau cyllid partneriaeth, a Thema 5, adolygu'r polisïau a'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag FCERM yng Nghymru.

Eglurodd y Cadeirydd y byddai am baratoi rhaglen fanwl ar gyfer themâu 4 a 5, i'w chymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai. Awgrymodd hefyd y gallai fod angen sefydlu is-bwyllgorau i helpu gydag adnoddau, polisïau a deddfwriaeth – ac y byddai hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

Awgrymwyd y dylai Mesur 1 yn y Strategaeth – Sefydlu'r cwmpas ac ystyried yr angen am newidiadau i ddeddfwriaeth, gael ei estyn tan 2022.

Dywedodd y Cadeirydd fod Thema 10 – Ymateb i ymgynghoriadau sy'n berthnasol i FCERM yng Nghymru wedi cael ei ddiweddaru'n sylweddol yn ddiweddar i adlewyrchu'r gwaith a wnaed eisoes gan y Pwyllgor. Eglurodd y Cadeirydd hefyd fod Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru wedi lansio galwad am dystiolaeth, er nad yw hon yn cynnwys rheoli perygl llifogydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd hyn yn cael ei lansio yn eu hadroddiad blynyddol nesaf.

Nesaf tynnodd y Cadeirydd sylw'r Pwyllgor at yr adran yn y Rhaglen Waith ar weinyddu, sy'n cynnwys arfarnu aelodau'r Pwyllgor bob blwyddyn. Cynigiodd y Cadeirydd fod yr arfarniadau yn cael eu cynnal drwy delegyfathrebu, ac y byddai'n trefnu dyddiadau ar gyfer y rhain gydag aelodau unigol, rywbryd ym mis Ebrill a mis Mai.

Tynnodd y Cadeirydd sylw hefyd at y gofyniad i baratoi adroddiad Pwyllgor blynyddol i'w gymeradwyo yng nghyfarfodydd 4 a 7 y Pwyllgor. Cadarnhaodd y Cadeirydd y dylai'r adroddiad gynnwys yr hyn rydym wedi'i wneud a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol.

Cyflwynodd y Cadeirydd yr Atodiad 2 newydd, sy'n canolbwyntio ar y rhyngwynebu â'r grwpiau rhanbarthol a'r Fforwm Grwpiau Arfordirol (Thema 6).

Dywedodd y Cadeirydd fod DH, fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor, wedi bod mor garedig â chynnig i ymuno â Fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru, a grŵp cynghori Canolfan Monitro Arfordirol Cymru, i sicrhau cysylltiadau cryfach â'r Pwyllgor.

Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i atgyfnerthu'r cysylltiadau â Fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru a'r grwpiau rhanbarthol ymhellach, gydag uwch-swyddogion llywodraeth leol ar y Pwyllgor yn gallu mynychu eu gwahanol grwpiau rhanbarthol.

Dywedodd GE fod Grŵp Gogledd Cymru yn fodlon iddo fynychu.

Cadarnhaodd AS fod Grŵp y De-ddwyrain wedi cytuno i gynrychiolydd ddod o'r Pwyllgor, ac adrodd yn ôl iddo. Roedd aelodau wedi trafod y cylch gorchwyl, cymorth ysgrifenyddiaeth, alinio'r cylch gorchwyl ac eitem sefydlog ar yr agenda. Gwnaethant drafod hefyd y posibilrwydd o ffi aelodaeth i dalu am swydd ysgrifenyddiaeth.

Rhoddodd DT adborth ar Grŵp Cyfarwyddwyr Amgylcheddol y De-orllewin. Awgrymodd y gallai FCERM gael ei golli ar yr agenda yn y cyfarfod hwn, a bod angen atgyfnerthu cysylltiadau.

Canmolodd JM ddull y pwyllgor ar gyfer gwaith ymgysylltu ehangach, sy'n rhoi sylw i Thema 6.

Gofynnodd y Cadeirydd pryd a ble roedd Cynhadledd Genedlaethol Cymru ar Lifogydd yn cael ei chynnal. Cadarnhaodd y byddai'n cael ei chynnal ar ddydd Mawrth 9 Mehefin yn Schooner Way, Caerdydd.

**CAM GWEITHREDU 9 – AM i holi ynghylch dyddiad Cynhadledd CIWEM Cymru**

Rhoddodd y Cadeirydd adborth gan y Gweinidog ar y rhaglen waith yn dilyn eu cyfarfod. Cadarnhaodd ei bod yn fodlon bod y Pwyllgor wedi gosod disgwyliadau uchel iddynt eu hunain, a'i bod yn hapus gyda'u gwaith hyd yn hyn.

### 7.4 Adroddiad o dan adran 18 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Rhoddodd JD ddiweddariad ar yr adroddiad o dan adran 18 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Dywedodd JD fod yr adborth mewnol gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn gadarnhaol, er y cydnabuwyd nad oedd yr adroddiad o reidrwydd yn ddarlun clir o'r holl weithgareddau FCERM yng Nghymru. Awgrymodd y byddai cyswllt ag adroddiadau Adran 19 yn ddefnyddiol, a chadarnhaodd fod datganiadau gan Awdurdodau Rheoli Risg yn anghyson.

Cadarnhaodd JD fod yr adroddiad bellach wedi cael ei gyhoeddi.

Trafododd y Cadeirydd y papur (Atodiad 2 mewn perthynas ag ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i argymhellion y Pwyllgor.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad Adran 18 yn cael ei ddrafftio fel dogfen ffeithiol, ddisgrifiadol, ac mae'r Pwyllgor wedi dweud y gallai fod yn fwy dadansoddol, gan dynnu sylw at broblemau a chyfleoedd, a gwneud argymhellion. Awgrymodd y gallai'r Pwyllgor chwarae rôl yn hyn o beth.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad Adran 18 yn anghyflawn, gan nad yw pob Awdurdod Rheoli Risg yn rhoi mewnbwn. Mae'r mater hwn wedi cael ei godi gyda'r Gweinidog.

Darllenodd JM ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Roedd yr ymateb yn derbyn yr angen i'r Pwyllgor hwn ddarparu rôl adolygu annibynnol neu oruchwylio ar gyfer yr adroddiad Adran 18. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai rhoi'r rôl hon i'r Pwyllgor yn ffordd briodol o wahaniaethu rhwng dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru fel Awdurdod Rheoli Risg, a'i rôl ddeddfwriaethol o adolygu'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Genedlaethol yng Nghymru.

Dywedodd JM hefyd fod y Gweinidog yn awyddus i'r Pwyllgor fod â rôl oruchwylio, a chyfrannu at gynnwys yr adroddiad. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru am atgyfnerthu'r Strategaeth mewn perthynas â'r adroddiad Adran 18.

**CAM GWEITHREDU 10 – JD i rannu rhestr o'r Awdurdodau Rheoli risg nad ydynt wedi ymateb, i alluogi JM a'r Cadeirydd i roi adborth i'r Gweinidog.**

**8. Unrhyw fater arall y mae'r Cadeirydd wedi cael ei hysbysu amdano ymlaen llaw**

Rhoddodd KP ddiweddariad ar y Grŵp Cynghori Thematig ar Gyd-ymchwil, sy'n edrych ar nifer o brosiectau sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor, fel 'cefnogi gwaith trwsio cydnerth yn dilyn llifogydd' a deall llywodraethu effeithiol ar gyfer perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan gynnwys y Friog ac Aber Hafren.

Dywedodd KP y byddai hi'n dosbarthu'r astudiaethau achos ar y Friog ac Aber Hafren pan fyddant ar gael.

Gwnaeth CW sylwadau ar brosiect CIRIA ar ganllawiau ar Reoli Llifogydd yn Naturiol. Mae'n brosiect dwy flynedd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2021. Bydd yn darparu cymorth mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd, gan ddod â phopeth at ei gilydd, gan gynnwys dyluniadau strwythurol Rheoli Llifogydd yn Naturiol. Bydd y canllawiau'n cael eu cyhoeddi ar ddiwedd y prosiect neu'n fuan ar ôl hynny.

**CAM GWEITHREDU 11 – CW i ddosbarthu cynnig CIRIA – Canllawiau ar Reoli Llifogydd mewn Modd Naturiol**

Awgrymodd AS y byddai tabl o'r holl brosiectau ymchwil yn ddefnyddiol, i helpu'r Pwyllgor i gyflawni Thema 9 eu Rhaglen Waith.

Eglurodd JM fod cyflythyr rheolaidd sy'n tynnu sylw at raglenni cyd-ymchwil. Cadarnhaodd JM fod ef a JFD yn y Grŵp Rhaglenni Cyd-ymchwil.

**CAM GWEITHREDU 12 – JFD i rannu'r cylchlythyr cyd-ymchwil â'r Pwyllgord**

Awgrymodd y Cadeirydd fod gan y Pwyllgor ddwy rôl: nodi bylchau mewn ymchwil a monitro'r cynnydd wrth nodi ac adrodd am elfennau o ymchwil y gellid eu cynnal.

Trafododd JFD gynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y gwanwyn, a gofynnwyd i'r Pwyllgor a fyddent yn ystyried mynd, gan y byddai eu mewnbwn gwerthfawr yn cael ei groesawu.

**9. Penderfynwyd gwahardd aelodau o'r cyhoedd lle y byddai'r cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur sensitif y materion sydd i'w trafod.**

## 10. Eitemau Cyfrinachol

### 10.1 Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

Cyflwynodd JM yr eitem hon, a oedd yn ystyried crynodeb drafft o'r adroddiad ar ymatebion i'w hymgynghoriad.

### 10.2 Polisi Llifogydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft

Cyflwynodd JT yr eitem hon, a oedd yn ystyried dogfen bolisi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft.

**CAM GWEITHREDU 13 – Aelodau'r Pwyllgor i roi unrhyw sylwadau eraill erbyn 6 Chwefror**

**CAM GWEITHREDU 14 – Y Cadeirydd i'w coladu a rhoi adborth i Jonni erbyn 10 Chwefror**

## 11. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 20 Mai 2020 yn Siambr Cyngor Dinas Casnewydd.